Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Arolwg o Bortffolio Celfyddydol Cymru 2019/20

## Canfyddiadau allweddol 1 Ebrill 2019 hyd 30 Medi 2019

21 Mai 2020

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, Braille, sain, hawdd ei ddarllen ac Arwyddeg Prydain. Byddwn ni’n ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Rydym ni’n gweithredu polisi cyfle cyfartal.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Canlyniadau allweddol hanner cyntaf 2019/20, 1 Ebrill-30 Medi 2019 | 5 |
| Cymharu data â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol | 6 |
| Amlder | 7 |
| Termau a diffiniadau | 7 |
| Atodiad | 8 |

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau hanner cyntaf 2019/20 yr arolwg o Bortffolio Celfyddydol Cymru 2019/20. Mae'n arolwg ddwywaith y flwyddyn o'r holl sefydliadau sydd yn y Portffolio a rhaid iddynt ei lenwi'n rhan o'u cytundeb ariannu. Ar hyn o bryd mae 67 sefydliad yn cael arian cymorth grant.

Mae'r arolwg yn casglu data am nifer y digwyddiadau celfyddydol a sesiynau cyfranogol sy'n digwydd a'r mynychiadau i weithgareddau'r portffolio.

## Canlyniadau allweddol hanner cyntaf 2019/20, 1 Ebrill-30 Medi 2019[1]

Yn ystod y chwe mis 1 Ebrill 2019-30 Medi 2019 roedd:

- cyfanswm o 9,678 digwyddiad celfyddydol gan sefydliadau yn y portffolio gyda 2.3 miliwn o fynychiadau
- y digwyddiadau yn cynnwys 243 arddangosfa celf weledol a chrefft, 6,734 dangosiad ffilm, 1,162 perfformiad gan gwmnïau teithiol a 1,539 perfformiad mewn lleoliadau cyflwyno
- y lefelau uchaf o fynychiadau i arddangosfeydd celf weledol a chrefftau a gafodd 1,486,215 mynychiad. Denodd perfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno 410,682 mynychiad, dangosiadau ffilm 224,729 mynychiad a pherfformiadau gan gwmnïau teithiol 193,371 mynychiad
- 35,543 sesiwn celf gyfranogol, gyda 398,859 cyfranogwr
- 28,463 o'r holl sesiynau celf gyfranogol i blant a phobl ifanc a 7,080 yn rhai cyffredinol
- 274,871 mynychiad i sesiynau cyfranogol i blant a phobl ifanc a 123,988 i sesiynau cyfranogol cyffredinol

[1] Noder: dim ond yn flynyddol y casglwn ddata cyflogaeth ac felly dim ond yn adroddiad y flwyddyn lawn y bydd y data yna'n ymddangos

## Cymharu data â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol

Dyma gymharu'r data o'r cyfnod chwe mis diweddaraf â data o'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol (1 Ebrill-30 Medi 2018). Wrth gwrs byddai disgwyl amrywiadau yn y data oherwydd newidiadau yn rhaglenni gweithgarwch y sefydliadau a ffactorau eraill.

Mae'r gymhariaeth yn dangos:

- bod gostyngiad o 0.6% yn nifer y digwyddiadau, o 9,738 i 9,678

- ond mae nifer y mynychiadau i ddigwyddiadau wedi cynyddu o bron i chwarter (24%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2.3 miliwn mynychiad o'u cymharu â 1.87 miliwn)

- Mynychiadau i arddangosfeydd celf weledol a chrefft bron yn ddwy ran o dair (64.2%) o'r holl fynychiadau yn hanner cyntaf 2019/20 (1.5 miliwn) sy'n gynnydd o 51.4% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mynychiadau i 4 sefydliad portffolio sy'n cyfrif am y cynnydd sylweddol

- Mae'r mynychiadau mewn lleoliadau cyflwyno wedi gostwng gan 5.4% (o 434,182 i 410,682) ac roedd gostyngiad o un rhan o bump (20%) hefyd yn nifer y perfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno. Yn yr un modd, gostyngodd nifer y perfformiadau gan gwmnïau teithiol gan 4.9% a gostyngodd nifer y mynychiadau i'r perfformiadau o bron i un rhan o bump (19.6%). O ran ffilm, roedd cynnydd yn nifer y dangosiadau a'r mynychiadau o'r flwyddyn flaenorol a chynnydd o 6.4% yn y dangosiadau a chynnydd mynychu o 6.8% i 224,729 mynychiad

- Mae sesiynau cyfranogol cyffredinol wedi cynyddu gan 29.2%, i fyny o 27,501 sesiwn i 35,543 sesiwn. Ond gostyngodd nifer y cyfranogwyr yn y sesiynau yma gan 14.3% o 465,292 i 398,859

- Roedd cynnydd o 66.1% mewn sesiynau cyfranogol i blant a phobl ifanc o'u cymharu â'r un cyfnod y llynedd (o 17,140 i 28,463) ond gostyngodd nifer y mynychiadau i'r sesiynau yma gan 7.6% (o 297,442 i 274,871)

- Mae nifer y sesiynau o weithgarwch cyfranogol cyffredinol nad ydynt i blant a phobl ifanc wedi gostwng bron i draean (31.7%) o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (10,361 i 7,080). Mae mynychiadau i'r sesiynau hefyd wedi gostwng gan ragor na chwarter (26.1%) o 167,850 i 123,988

## Amlder

Mae’r arolwg yn digwydd bob 6 mis.

## Termau a diffiniadau

Diffinnir **cyfranogiad** fel cymryd rhan weithredol yn y celfyddydau, megis mynychu gweithdy, dosbarth neu ymarfer.

Diffinnir **mynychiad** fel profi'r celfyddydau fel aelod o'r gynulleidfa.

Mae nifer y **mynychiadau** yn cynrychioli cyfanswm y mynychiadau gan y gynulleidfa neu nifer y cyfranogiadau. Hynny yw, gall unigolyn fynychu neu gymryd rhan fwy nag unwaith.

Diffinnir **sesiwn** gyfranogol fel hanner diwrnod neu lai.

Mae **sesiynau cyfranogol cyffredinol** ar gael i bawb.

Mae'r nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys y grwpiau canlynol o bobl:

- pobl anabl
- pobl dduon, pobl Asiaidd a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol
- plant a phobl ifanc
- lesbiaid, hoywon neu ddeurywolion
- menywod beichiog a mamau newydd
- pobl â chredoau crefyddol penodol
- pobl drawsryweddol

Gall pobl fod â rhagor nag un nodwedd.

Mae **lleoliadau cyflwyno’n** cynnwys theatrau, canolfannau celfyddydol, neuaddau cyngerdd neu leoedd eraill lle mae perfformiadau celfyddydol yn digwydd.

Mae **cwmni teithiol** yn cynhyrchu sioeau (drama, dawns, cerddoriaeth ac ati) i’w perfformio mewn lleoliad neu leoliadau.

Diffinnir **plant a phobl ifanc** fel y rhai sydd dan 26 oed.

## Atodiad

Tabl 1

| Mynychu | 1 Ebrill - 30 Medi 2019 | |
|---|---|---|
| | Digwyddiadau | Mynychiadau |
| Arddangosfeydd | 243 | 1,486,215 |
| Dangosiadau ffilm | 6,734 | 224,729 |
| Perfformiadau gan gwmnïau teithiol | 1,162 | 193,371 |
| Perfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno | 1,539 | 410,682 |
| Cyfanswm mynychiadau | 9,678 | 2,314,997 |

Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Celfyddydau Cymru o'r portffolio

Sail: 67 sefydliad

Tabl 2

| Cyfranogi | 1 Ebrill - 30 Medi 2019 | |
|---|---|---|
| | Sesiynau | Mynychiadau mewn digwyddiadau cyfranogol |
| Plant a phobl ifanc | 28,463 | 274,871 |
| Gweithgarwch cyfranogol cyffredinol | 7,080 | 123,988 |
| Cyfanswm cyfranogiadau | 35,543 | 398,859 |

Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Celfyddydau Cymru o'r portffolio

Sail: 67 sefydliad

Tabl 3

| Mynychu | 1 Ebrill-30 Medi 2018 | | 1 Ebrill-30 Medi 2019 | | Canran y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Digwyddiad | Mynychiad | Digwyddiad | Mynychiad | Digwyddiad | Mynychiad |
| Arddangosfeydd | 266 | 981,707 | 243 | 1,486,215 | -8.6 | 51.4 |
| Dangosiadau ffilm | 6,327 | 210,367 | 6,734 | 224,729 | 6.4 | 6.8 |
| Perfformiadau gan gwmnïau teithiol | 1,222 | 240,373 | 1,162 | 193,371 | -4.9 | -19.6 |
| Perfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno | 1,923 | 434,182 | 1,539 | 410,682 | -20 | -5.4 |
| Cyfanswm mynychiadau | 9,738 | 1,866,629 | 9,678 | 2,314,997 | -0.6 | 24 |

Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Celfyddydau Cymru o'r portffolio

Sail: 67 sefydliad

Tabl 4

| Cyfranogi | 1 Ebrill-30 Medi 2018 | | 1 Ebrill-30 Medi 2019 | | Canran y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sesiwn | Mynychiad mewn digwyddiadau cyfranogol | Sesiwn | Mynychiad mewn digwyddiadau cyfranogol | Sesiwn | Mynychiad mewn digwyddiadau cyfranogol |
| Plant a phobl ifanc | 17,140 | 297,442 | 28,463 | 274,871 | 66.1 | -7.6 |
| Gweithgarwch cyfranogol cyffredinol | 10,361 | 167,850 | 7,080 | 123,988 | -31.7 | -26.1 |
| Cyfanswm cyfranogiadau | 27,501 | 465,292 | 35,543 | 398,859 | 29.2 | -14.3 |

Ffynhonnell: Arolwg Cyngor Celfyddydau Cymru o'r portffolio

Sail: 67 sefydliad